




**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**  
**ANT 26 - CWM GWAUN/AFON NYFER**



Gweler y cynllun isod ar gyfer rhan de-orllewinol ANT 26



Gweler y cynllun uchod ar gyfer rhan gogledd-ddwyrainol ANT 26



**Leoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol**

Mae system ddyffryn isel, goeodig helaeth y ddwy afon sy'n rhedeg tua'r tir o Abergwaun a Threidraeth yn gorwedd ar godiad o rhwng tua 10 a thua 100m UDO. Mae dyffrynnoedd yr Afon Gwaun (Cwm Gwaun) a'r Afon Nyfer (Cwm Nyfer) yn nodwedd sy'n rhannu dwy ardal uchel debyg ond nodedig Mynydd Preseli a Mynydd Carningli. Mae ei thirwedd o ddyffryn cul, caeedig ac eithaf clos yn gyferbyniath amiwg i'r bryniau carregog a noeth gerllaw. Mae yna olygfeydd rheolaidd allan at y bryniau, ac mae eu ffurf a'u presenoldeb yn aecennu natur endoredig cwm yr afon Gwaun yn benodol.

**Nodweddion Gwleddol a Synhwyraidd**

Cyffres o gymoedd coedlog, cysgodol a chaeedig cul, y mae mynyddoedd y Preseli yn edrych drostynt, gan gynnig ymdeimlad cryf o le ac aecennu natur endoredig y cymoedd hyn. Maen nhw'n gymoedd coedlog, dwys gyda chaeau amaethyddol bach, sy'n aml yn cael eu ffinio gan berthi sydd wedi gordyfu, ac mae yna dir pori garw ar ymylon uwch y cwm. Mae'r blociau coetir yn cynnwys rhywogaethau deilgoll a chyfuniad o ddeilgoll/coniferiaidd.

**Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd**

Dwy enghraifft o sianelau dŵr tawdd rhewlifol a nawr yn cael eu dominyddu gan yr Afon Nyfer a'r Afon Gwaun. Yn eu hanfod, mae'r ddau gwm a chymeriad coedlog gyda phorfeydd garw yng ngwaelod y cymoedd. Mae coed

**Nodweddion Daearegol**

Mae gorllifir/sylfaen yr Afon Nyfer, sy'n llawn driff, yn cynnwys adran ganol, ydan i fyny'r llif o Nyfer, sy'n mynd yn gul ac yn endoredig i lawr yr afon tuag at yr aber. Mae llawr gwastad neu ychydig ar oledf Cwm Gwaun yn cynnwys cwrs a gorllifir yr Afon Gwaun ac ardal ydan i'r de orllewin o Lanerch. Mae cwrs endoredig yr Afon Nyfer yn ffurio llawr sianel dŵr tawdd thewlifol pwysig gyda system nant/afon fodern fach mewn lle erbyn hyn (Chwaternaid: Pleistosenaid-Holosen).

**Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol**

Mae'r ANT hon yn cynnwys rhan fechan iawn o Dirwedd Gofrestredig o Ddi-ddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru y Preseli. Yn ychwanegol at hyn, mae rhan fechan o'r ANT yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddi-ddordeb Hanesyddol Arbenig yng Nghymru Treidraeth a Charmingli, sy'n nodedig am bresenoldeb beddrodau Neolithig yng nghyffiniau Nyfer. Mae yna gaerâu o'r Oes Haearn, adeiladau canoloesol ac ôl-ganoloesol a strwythurau sy'n bwysig yn genedlaethol. Mae'r dyffryn yn cynnal cymuned draddodiadol sy'n siarad Cymraeg, ac mae yna wir ymdeimlad o gymuned ymhlith teuluoedd lleol sydd wedi byw yn y cwm ers cenedlaethau niferus ac wedi cynnal agweddau o fywyd gwledig Cymreig sy'n mynd yn ôl canrifoedd.

**Nodiant y Map:**

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

## Gwerthusiad ac Argymhellion

<b>ANT Rhif</b>	<b>Ardal Nodwedd</b>	<b>Meysydd Agwedd Gwleddol a Synhwyraidd</b>	<b>Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearogol</b>	<b>Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd</b>	<b>Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol</b>	
26	<b>Cwm Gwaun/ Afon Nyfer</b>	12 - Uchel 20 - Uchel	19 - Canolig 46 - Canolig	53 - Eithriadol 315 - Canolig 426 - Eithriadol 596 - Isel 920 - Uchel	42258 - Eithriadol 42264 - Eithriadol 46198 - Eithriadol 46216 - Eithriadol 46232 - Uchel	001 - Uchel 129 - Canolig 328 - Uchel

<b>Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:</b>
<b>Eithriadol:</b> O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
<b>Uchel:</b> O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Siro
<b>Canolig:</b> O Bwysigrwydd Lleol
<b>Isel:</b> Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl
<i>(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)</i>

## Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae yna ymdeimlad treiddiol o gysgod yn y cymoedd hyn, gan gyfuniad o dirffurfiau, coetiroedd a'r rhwydwaith o berthi aeddfed trwchus sy'n ffinio mwyafrif y caeau
- Mae yma ymdeimlad caeedig a chlos cryf a gyflwynir gan y nodweddion uchod, sy'n arwain at frithwaith o gaeu bach wedi'u hacennu gan flociau coetir, sy'n rhoi gwead cyfoethog i'r dirwedd. Mae hyn yn cyferbynnu'n gryf gyda rhostir agored Mynyddoedd y Preseli gerllaw, sydd â golygfeydd llydan deniadol
- Dominyddir y patrwm o anheddiad prin a gwasgaredig gan fathau traddodiadol o adeiladau, sydd â chysylltiad agos at y perthi aeddfed sy'n amgáu caeau bach, sy'n eifennau hollbresennol ar y dirwedd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu'n bositif at yr ymdeimlad fod y cymoedd yn dirwedd sydd heb ei difetha, i raddau helaeth, gan ddatblygiadau adeiledig diweddar neu newidiadau mewn rheolaeth amaethyddol
- Mae gan rhwng 30% a 40% o Gwm Gwaun safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol am eu diddordeb o ran cadwraeth natur, ac maen nhw'n cynnwys dolydd o laswellt y bwla, coetir derw asidig gorllewinol a choetir gwern ar orlifer
- Mae gan ran o'r Afon Nyfer gynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, sef gweunydd sych a gweundir gwlyb gyda gwaun croesddail, yn ychwanegol at ddolydd o laswellt y bwla a choetir derw asidig gorllewinol
- Mae cynefinoedd coetir gwern a deri yn flaenoriaeth leol o ran gwarchod natur, ac mae'r cysylltiedd rhwng blociau coetir twny'r rhwydwaith o berthi, yn factor cefnogol pwysig
- Ceir Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a Eithriadol yng Nghymru mewn rhannau bach o'r ANT hon. Mae yna llynon o gaerâu a chaeadeoedd o'r Oes Haearn sy'n eistedd ar bron pob brigiad ar hyd y cymoedd hyn.
- Mae cymuned draddodiadol o siaradwyr Cymraeg wedi goroesi yma yng Nghwm Gwaun, ac ar hyn o bryd nid yw'n dioddef yr un graddau o newid diwylliannol a welwyd gerllaw mewn ardaloedd arfordirol

## Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r arfer o blannu coniferau yn disodli safleoedd coetir llydanddail yn raddol, trwy lechfeddiannu
- Mae diraddiad ffiniau cae traddodiadol a choetir yn ganlyniad i ddulliau rheoli anghyson neu amhriodol
- Mae adeiladau amaethyddol modern yn cael eu codi sydd â ffurf, defnyddiau adeiladu a gorffeniadau sy'n anghydnaws i'r arddull gynhenid leol.

## Canllawiau Rheoli

- Ystyried addasrwydd planhigfeydd conifer mewn tirwedd o berthi a choetir llydanddail, ac yna cefnogi'r broses o glirio ac ailblannu gyda choetiroedd llydanddail
- Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn cael eu monitro i ganiatáu i'r gweithgarwch barhau, ond hefyd i gadw unrhyw darfu i isafswm a sicrhau goroesiad hir dymor cynefinoedd sydd o flaenoriaeth leol, a'r rhywogaethau cysylltiedig.
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd; yn arbennig, gadael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch ffiniau caeau â'r er budd bywyd gwylt
- Ailsefydlu nodweddion ffiniau cae traddodiadol ac ailgyflwyno arferion rheoli ffiniau cae traddodiadol, mewn ffordd gyson ar draws y cymoedd, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw nodweddion daearogol neu eomorffolegol pwysig yn cael eu colli na'u difrodi
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig ar ardaloedd a ddynodwyd yn Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn arbennig, rhag effeithiau coedwigaeth, er mwyn cynnal eu cyfarwydd a'u cyd-ddestun gweledol
- Gwarchod gwerth y safleoedd dynodedig, o ran cadwraeth natur, trwy reolaeth briodol wedi'i sicrhau trwy gyntundeb, ble'n ymarferol
- Ceisio hybu economi gwledig hyfwr a chynaliadwy yng Nghwm Gwaun heb gollu ei hunaniaeth ddiwylliannol hirsefydlog
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.